| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Mawrth 2017** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Rheoleiddio Peiriannau Awyr sy'n Hedfan heb Yrwyr** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r posibilrwydd o reoleiddio'r defnydd o beiriannau awyr sy'n hedfan heb yrwyr ("dronau") yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mewn ymateb i Rybudd o Gynnig a ddygwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, penderfynodd y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2016 bod adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio ar y fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â pheiriannau awyr sy'n hedfan heb yrwyr (dronau) a'r pwerau, os o gwbl, i'r Cyngor gyflwyno cyfyngiadau pellach.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Aelodau i ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a phenderfynu pa gamau pellach, os o gwbl, y dylid eu hargymell o ran rheoleiddio'r defnydd o ddronau yn Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Galwodd y Rhybudd o Gynnig a ystyriwyd gan y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2016 am waharddiad ar ddronau dros yr holl fannau cyhoeddus yn Sir Ddinbych.

4.2 Er mwyn i unrhyw waharddiad ar ddefnyddio dronau fod yn effeithiol, byddai'n rhaid iddo fod yn orfodadwy. Ni fyddai dim ond pasio penderfyniad ar wahardd dronau yn cael unrhyw effaith gyfreithiol. Yr unig ffordd y gallai'r Cyngor ddod â gwaharddiad i rym cyfreithiol fyddai pasio is-ddeddf i reoleiddio'r defnydd o ddronau.

4.3 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â gwneud is-ddeddfau wedi'i chynnwys yn Neddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ("Deddf Is-ddeddfau"), sy'n darparu y gall awdurdod lleol wneud is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth ei holl ardal neu ran o'i ardal, neu rwystro ac atal niwsans yn ei ardal. Mae'r pŵer hwn yn gyfyngedig, o ran na all is-ddeddfau wneud darpariaeth sy'n cael ei wneud gan Ddeddf Seneddol neu gan y Cynulliad, neu sy'n cael ei wneud, neu a allai gael ei wneud, drwy offeryn statudol.

4.4 Mae Deddf Hedfan Sifil 1982 ("Deddf 1982") yn llywodraethu hedfan sifil yn y DU. O dan ddarpariaethau Deddf 1982, mae'n bosibl i Lywodraeth y DU wneud offerynnau statudol i lywodraethu agweddau amrywiol ar hedfan sifil. Cafodd Gorchymyn Llywio Awyr 2016 ("Gorchymyn 2016") ei wneud o dan Ddeddf 1982 ac mae'n ymdrin yn benodol â pheiriannau awyr sy'n hedfan heb yrwyr neu ddronau.

4.5 Mae Gorchymyn 2016 yn nodi'r canlynol ar gyfer unigolyn sydd â gofal dros ddrôn:

- rhaid peidio ag achosi neu ganiatáu i beiriant awyr beryglu unrhyw unigolyn neu eiddo,
- caniateir hedfan y peiriant awyr os yw'n rhesymol fodlon y gellir hedfan yn ddiogel.
- rhaid cynnal cysylltiad gweledol uniongyrchol â'r peiriant awyr bob amser.
- caniateir hedfan am resymau masnachol yn unig, gyda chaniatâd gan yr Awdurdod Hedfan Sifil
- ni chaniateir hedfan y peiriant awyr yn uwch na 400 troedfedd
- ni chaniateir hedfan y peiriant awyr mewn gofod awyr penodol heb ganiatâd yr uned rheoli traffig awyr perthnasol

4.6 Lle bydd drôn wedi'i ffitio â chamera, yna yn ychwanegol at y cyfyngiadau a nodir uchod, ni chaniateir i unigolyn sydd â gofal dros ddrôn wneud y canlynol:

- hedfan dros neu o fewn 150 medr o ardal orlawn,
- hedfan dros neu o fewn 150 medr o gydosodiad awyr agored wedi'i drefnu o fwy na 1000 o bobl
- hedfan o fewn 50 medr i unrhyw long, cerbyd neu strwythur nad yw o dan ei reolaeth
- hedfan o fewn 50 metr i unrhyw unigolyn
- cychwyn na glanio o fewn 30 metr i unrhyw unigolyn,

oni bai bod ganddynt ganiatâd i wneud hynny gan yr Awdurdod Hedfan Sifil.

4.7 Diffinnir ardal orlawn fel unrhyw ddinas, tref neu anheddiad a ddefnyddir yn sylweddol at ddiben preswyl, diwydiannol, masnachol neu hamdden.

4.8 Ymddengys felly bod hedfan dronau yn cael ei reoleiddio gan Orchymyn 2016, sy'n creu troseddau ar gyfer y rhai sy'n torri ei ddarpariaethau. Nid yw'n ymddangos yn bosibl i lywodraethu dronau hedfan ymhellach. Gall fod yn bosibl rheoleiddio cychwyn a glanio dronau o eiddo'r Cyngor. Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar eu his-ddeddfau enghreifftiol yn nodi na ddylai Cynghorau eu mabwysiadu mewn bloc ac y dylent fod yn fodlon bod wir angen is-ddeddf i fynd i'r afael â phroblem sy'n bodoli eisoes. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn mewn perthynas ag is-ddeddf

enghreifftiol a ddrafftiwyd yn flaenorol mewn perthynas â pheiriannau awyr enghreifftiol cyn gwneud Gorchymyn 2016.

4.9 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae eglurhad yn cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru ynghylch statws parhaus yr is-ddeddf enghreifftiol hwn yn sgil Gorchymyn 2016.

4.10 Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y defnydd diogel o ddronau yn y DU. Mae copi o'r ddogfen ymgynghori ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Mae'r ymgynghoriad yn eang ac yn cynnwys materion yn ymwneud ag ysgogi menter ac arloesi sy'n gysylltiedig â dronau, rheoleiddio gweithredwyr masnachol, ac sy'n arbennig o berthnasol i'r adroddiad hwn, diogelwch a gweithrediad cyfreithlon dronau, gan gynnwys gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr dronau hamddenol o'r gyfraith.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Does dim angen gwneud penderfyniad.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni fyddai unrhyw gostau ariannol uniongyrchol yn deillio o wneud is-ddeddf, ar wahân i'r gost o ymgynghori a hysbysebu ar ffurf hysbysiadau cyhoeddus. Gallai fod costau yn gysylltiedig â gorfodi unrhyw is-ddeddf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Ar y cam hwn, nid oes asesiad wedi cael ei wneud am nad oes angen gwneud unrhyw benderfyniad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid yw'r mater hwn wedi bod gerbron Pwyllgor Archwilio eto.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd yn rhaid i unrhyw gyllid sy'n ofynnol ar gyfer y mater hwn ddod o adnoddau presennol

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risg y bydd unrhyw is-ddeddf a grëir mewn perthynas â'r mater hwn, i bob bwriad a diben, yn ymarferol anorfodadwy.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Adran 7.2.3 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:** Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Ffôn: 01824 712562